Hawdd i'w Ddeall

ADSS Cymru
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales

# Cynllun Gweithredu Gofal Cymdeithasol a Chymru Gwrth-hiliol

## Adroddiad gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan '**Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol**'. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Darparu Gofal Cymdeithasol mewn Cymru Gwrth-hiliol**'.

**Mehefin 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 26**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.adss.cymru

**E-bost:** contact@adss.cymru

**Ffôn:** 01443 742641

Gwnaeth Hawdd ei Ddeall Cymru y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247.**

# Cynnwys


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma ........ 2**

**Cyflwyniad ........ 4**

**Iaith yng Nghymru ........ 7**

**Beth mae awdurdodau lleol wedi ei ddweud wrthyn ni ........ 10**

**Beth mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi ei ddweud wrthyn ni ........ 12**

**Beth mae cyrff y trydydd sector wedi ei ddweud wrthyn ni ........ 18**

**Beth wnaeth cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd ddweud wrthyn ni ........ 23**


**Beth rydyn ni'n feddwl ddylai ddigwydd nesaf ........ 25**

**Geiriau Anodd ........ 26**

# Cyflwyniad



Mae **ADSS Cymru** yn sefyll am **Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**. Mae ein gwaith yn ymwneud â Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.




Yn ddiweddar, fe wnaeth Llywodraeth Cymru greu cynllun o'r enw **Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol**.



Fe wnaethon nhw ofyn i ni eu helpu i edrych ar **wasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu** sy'n cael eu defnyddio yn y gwasanaethau cymdeithasol. Hefyd, i weld ydy pobl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.



Gwasanaethau cymdeithasol ydy unrhyw wasanaethau sy'n cael eu darparu i bobl pan fyddan nhw angen help a chefnogaeth.




Mae **gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu** yn rhoi gwybodaeth mewn iaith wahanol.



Er enghraifft, os nad ydy person yn gallu siarad Saesneg, mae'n meddwl bod angen cyflogi rhywun sy'n siarad ei iaith.




Roedden ni eisiau dysgu mwy am y pethau sy'n stopio pobl o **leiafrifoedd ethnig** rhag defnyddio gwasanaethau cymdeithasol.



Mae **lleiafrifoedd ethnig** yn meddwl pobl sy'n byw yng Nghymru ond sy'n dod o gefndiroedd, gwledydd neu ddiwylliannau eraill na'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru. Efallai eu bod nhw'n siarad ieithoedd eraill heblaw Saesneg neu Gymraeg.


Dyma oedd ein prif amcanion:




- Edrych ar bethau fel ymchwil ac adroddiadau.



- Edrych ar **Gyfrifiad** 2021. Mae hwn yn arolwg swyddogol sydd yn cael ei wneud i gael gwybodaeth sylfaenol am bawb yn y gymdeithas. Er enghraifft, faint o bobl sy'n siarad ieithoedd eraill.



- Siarad â phobl o bob cyngor lleol yng Nghymru.



- Siarad ag elusennau a grwpiau cymunedol amrywiol.



- Siarad â phobl o wahanol gefndiroedd yn yr iaith o'u dewis nhw.



- Cael rhagor o wybodaeth gan gynghorau am ieithoedd. Er enghraifft, os oedd pobl wedi gwneud cwynion am iaith.


# Iaith yng Nghymru



Mae ychydig dros 3 miliwn o bobl yn byw yng Nghymru.



Mae tua 3 miliwn o bobl yn wyn.




Mae'r rhan fwyaf o bobl yn siarad Cymraeg neu Saesneg.



Mae nifer fach o bobl ond yn gallu siarad ychydig bach o Gymraeg neu Saesneg.



Pan nad ydy pobl yn gallu siarad prif iaith gwlad mae'n gallu eu stopio nhw rhag cael yr help maen nhw ei angen. Er enghraifft, gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.




Mae’n rhaid i sefydliadau cyhoeddus fel cynghorau ddilyn deddfau i wneud yn siŵr eu bod yn deall anghenion y bobl maen nhw’n gweithio gyda nhw.




Er enghraifft, anghenion eu hiaith. Rhaid i sefydliadau cyhoeddus gefnogi pobl yn eu hiaith eu hunain.



I helpu gyda hyn, mae **gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd** yn cael eu defnyddio yn aml.




Mae **cyfieithu ar y pryd** yn gallu meddwl cyflogi rhywun sy’n siarad Saesneg ac iaith arall.




Mae **cyfieithu** yn gallu meddwl ysgrifennu rhywbeth yn Saesneg i iaith arall. Neu’r ffordd arall.



Mae ymchwil wedi'i wneud ar y ffyrdd gorau o gefnogi pobl sydd â iaith wahanol.



Mae'n dangos ei bod yn well defnyddio gwasanaethau proffesiynol ar gyfer **cyfieithu ar y pryd** a **chyfieithu**. Yn lle gofyn i deulu a ffrindiau helpu.




Mae hyn oherwydd materion fel:

- Cadw gwybodaeth yn breifat.
- Gwneud yn siŵr bod yr wybodaeth sy'n cael ei rhannu yr un fath.



Fe ddylid roi yn ffeil person beth ydy eu prif iaith ac os ydyn nhw angen help.

# Beth mae awdurdodau lleol wedi ei ddweud wrthyn ni



Mae awdurdodau lleol hefyd yn cael eu hadnabod fel cynghorau.




Rydyn ni wedi bod yn siarad gyda staff o bob awdurdod lleol yng Nghymru.

**Dyma rai o'r prif faterion roedd staff yn sôn amdanyn nhw:**



- **Ethnigrwydd** pobl – Faint mae'r cyngor yn ei ddeall am y bobl yn eu hardal.

> Mae **ethnigrwydd** yn meddwl cefndir neu ddiwylliant unigolyn.




- Pa gynlluniau sydd gan gyngor i gefnogi anghenion iaith pobl - doedd llawer o staff ddim yn siŵr pa gynlluniau oedd ganddyn nhw.



- Cyflogi **cyfieithwyr** ar gyfer  ieithoedd **ethnig lleiafrifol** – fe wnaeth y rhan fwyaf o staff ddweud nad oedd hyn wedi digwydd.



- **Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd a Chyfieithu Cymraeg (WITS)** - Dyma'r gwasanaeth y mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn ei ddefnyddio i ddod o hyd i gymorth i bobl ag anghenion iaith. Ond mae rhai eraill yn cael eu defnyddio hefyd.

# Beth mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi ei ddweud wrthyn ni



Fe wnaethon ni ofyn i'r sefydliad **Women Connect First** siarad â phobl sydd wedi defnyddio **cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd** yn y gorffennol.



Roedd **cyfieithwyr** wedi cael eu defnyddio ac roedden nhw wedi gofyn cwestiynau i bobl yn yr iaith o'u dewis.




Cafodd 20 o bobl eu holi. Roedden nhw yn dod o 11 o grwpiau **ethnig lleiafrifol** gwahanol.



Roedd pawb wedi derbyn cefnogaeth gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol.



Fe wnaethon ni ofyn i bobl pwy oedd wedi darparu **cyfieithiad** iddyn nhw pan oedden nhw yn defnyddio gwasanaethau cymdeithasol.



Roedd y rhan fwyaf yn dweud bod gwasanaethau **cyfieithu ar y pryd** yn cael eu defnyddio.



Roedd rhai yn dweud teulu a ffrindiau.



Roedd  3 o bobl wedi dweud gweithiwr cymdeithasol.



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn dweud bod y gwasanaeth roedden nhw wedi ei gael yn iawn.



Roedd 3 yn dweud ei fod yn wych. Roedden nhw'n aelodau o'r teulu.



Roedd 3 yn dweud ei fod yn dda.



Roedd 3 yn dweud ei fod yn wael neu'n wael iawn.



Fe wnaethon ni holi pobl am eu profiadau o ddefnyddio **gwasanaethau cyfieithu ar y pryd**.




Roedd rhai yn dweud bod angen iddyn nhw ddeall mwy am eu hanghenion a'u cefndiroedd.



Roedden nhw'n dweud bod angen mwy o amynedd a pharch.



Fe wnaeth rhywun ddweud y byddai'n ddefnyddiol defnyddio **cyfieithwyr ar y pryd** o'u diwylliant neu grŵp crefyddol eu hunain.

# Barn am staff y gwasanaethau cymdeithasol




Fe wnaethon ni holi pobl beth roedden nhw'n feddwl am pa mor dda roedd staff y gwasanaethau cymdeithasol yn deall anghenion a chefndiroedd pobl.



Roedd rhai pobl yn dweud fod ganddyn nhw ddealltwriaeth dda.




Roedd rhai pobl yn dweud nad oedd ganddyn nhw ddealltwriaeth dda.




Fe wnaeth 2 o bobl ddweud eu bod wedi gwneud cwyn.

## Gwneud pethau'n well



Fe wnaethon ni holi pobl pa newidiadau oedd yn gallu cael eu gwneud i wella'r gwasanaeth oedd wedi cael ei roi.



Roedd rhai pobl yn dweud y dylai fod yn fwy hawdd cael yr help sydd ei angen a phan mae pobl ei angen.



Fe wnaeth rhywun ddweud y bydden nhw wedi ei chael hi'n ddefnyddiol pe bai'r gwasanaethau cymdeithasol wedi deall eu sefyllfa yn well.

**Y prif syniadau oedd gan bobl oedd:**




- Cael mwy o staff sy'n siarad ieithoedd gwahanol ac yn deall amrywiaeth o wahanol gefndiroedd pobl.




- I staff fod yn fwy amyneddgar, yn gymwynasgar ac yn ddeallus.



- Cynllunio yn well - er enghraifft, gwneud yn siŵr bod y **cyfieithydd cywir** wedi'i archebu.




- Ei gwneud hi'n fwy clir a hawdd i gwyno pan yn anhapus.




- Gwneud yn siŵr fod gwybodaeth  yn cael ei **gyfieithu** yn gywir.



- Ceisio cadw'r un staff yn lle newid staff.

# Beth mae cyrff y trydydd sector wedi ei ddweud wrthyn ni



Mae cyrff y trydydd sector yn meddwl elusennau, grwpiau cymunedol a chyrff fel y rhain.



Mae'r cyrff yma yn aml yn darparu gwasanaethau sy'n cefnogi pobl  o **leiafrifoedd ethnig** gyda nifer o faterion fel iechyd, tai a mwy.



Rydyn ni yn siarad â phobl o'r cyrff yma.



Rydyn ni hefyd wedi bod yn siarad â phobl sy'n ofalwyr ar gyfer **pobl o leiafrifoedd ethnig**.



Fe wnaethon ni siarad â 18 o gyrff a 4 gofalwr.



Roedd rhywfaint o adborth am y rhesymau pam nad ydy rhai pobl eisiau derbyn gofal cymdeithasol.



Yn aml oherwydd ofn. Er enghraifft, ofn os ydy'r gwasanaethau cymdeithasol yn cymryd rhan, efallai y bydd eu plant gael eu tynnu i ffwrdd oddi wrthyn nhw.



Fe wnaeth rhai ddweud bod angen gwneud mwy i helpu'r gwasanaethau cymdeithasol i ddeall cefndiroedd pobl. Er enghraifft, pam mae eu plant yn cael eu magu mewn ffyrdd penodol.



Roedd rhywfaint o adborth am sut nad oedd gwasanaethau **cyfieithu ar y pryd** wedi cael eu defnyddio'n ddigon da i bobl o gefndiroedd Roma.



Doedd rhai pobl o gefndiroedd Roma ddim yn ymddiried mewn **gwasanaethau cyfieithu** oherwydd profiadau gwael yn y gorffennol.



Roedden nhw’n dweud fod y gwasanaethau cymdeithasol yn cynnal archwiliadau cartref heb **gyfieithydd ar y pryd**.



Roedd rhai sefydliadau yn dweud nad oes gwasanaeth **cyfieithu ar y pryd** ar gyfer pob iaith.



Roedd yn rhaid i rai pobl ddarparu eu cyfieithydd eu hunain. Roedd hyn yn fwy o broblem mewn gwasanaethau iechyd fel y deintydd.



Roedden nhw’n dweud hefyd  nad ydy rhai **cyfieithwyr** yn cael digon o amser i **gyfieithu**.



Roedd hefyd yn bwysig meithrin ymddiriedaeth. Roedd rhai yn dweud y byddai’n ddefnyddiol pe bai hyfforddiant ar gyfer pob **cyfieithydd**.




Roedd rhai yn dweud nad oedd gweithwyr cymdeithasol a staff gofal yn deall credoau'r bobl roedden nhw'n gweithio gyda nhw. Er enghraifft, tynnu eu hesgidiau i ffwrdd mewn cartrefi Mwslimaidd.



Roedd rhai cyrff yn dweud bod y cyfarfod cyntaf yn bwysig iawn. Os nad ydy gweithiwr cymdeithasol yn deall credoau teuluoedd efallai na fyddan nhw yn gofyn am unrhyw help.



Cafwyd llawer o adborth negyddol am wasanaethau cymdeithasol a'r diffyg dealltwriaeth o gredoau pobl.



Fe wnaeth un corff sôn am bwysigrwydd **canolbwyntio ar yr unigolyn**. Mae hyn yn meddwl rhoi'r person yng nghanol cynllunio ar gyfer ei fywyd.



Fe wnaeth llawer o gyrff ddweud bod angen mwy o hyfforddiant i helpu staff y gwasanaethau cymdeithasol i ddeall cefndiroedd y bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw.



Ond, fe ddywedodd rhai cyrff nad oedd hyfforddiant yn ddigon. Roedden nhw'n dweud bod angen gwneud mwy i newid ymddygiad ac agweddau staff.



Roedd rhai cyrff yn dweud y dylai'r gwasanaethau cymdeithasol gasglu mwy o wybodaeth am yr ieithoedd amrywiol sy'n cael eu siarad yn eu hardal.




Hefyd, dylai fod mwy o staff gwasanaethau cymdeithasol o **leiafrifoedd ethnig**.



Roedden nhw'n dweud y dylid gofyn i gyrff fel nhw hefyd i gymryd mwy o ran mewn cael dweud eu dweud am **wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd**.

# Beth wnaeth cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd ddweud wrthyn ni



**Fe wnaethon ni ofyn i gyfieithwyr** a **chyfieithwyr ar y pryd** beth  sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd a beth sydd yn gallu cael ei wneud i wella pethau.



Fe wnaeth llawer o bobl ddweud bod pethau'n gweithio'n dda ac nad oedd unrhyw broblemau.



Ond roedden nhw eisiau i staff y gwasanaethau cymdeithasol ddeall swydd y **cyfieithydd** yn well.



Roedden nhw hefyd eisiau cael mwy o amser iddyn nhw wneud eu gwaith yn dda.



Cafwyd adborth ar sut y mae iaith yn gallu amrywio o ardal i ardal. Mae hyn yn cael ei alw yn **dafodiaith**.




Er enghraifft, mae rhai geiriau yn gallu meddwl gwahanol bethau mewn gwahanol feysydd, er bod pobl yn siarad yr un iaith yn gyffredinol.



Mae'n bwysig bod cyfieithydd  yn deall y gwahaniaethau yma.



Fe wnaeth **cyfieithwyr** siarad am bwysigrwydd cael gwybodaeth cyn cyfarfod â rhywun. Hefyd, cael amser i baratoi.

Fe wnaeth **cyfieithwyr** ddweud y byddai'n ddefnyddiol i'r gwasanaethau cymdeithasol feddwl mwy am bethau fel:



- Lle bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal
- Rhoi gwybodaeth i'r **cyfieithydd** – er enghraifft, diweddariad
- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod pwy ydy'r **cyfieithydd** a beth ydy eu swydd
- Peidio â'u rhuthro a pheidio â thorri ar eu traws.

# Beth rydyn ni'n feddwl ddylai ddigwydd nesaf

Dyma rai o'r prif bethau rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd nesaf:




- Rhaid cefnogi pobl i siarad yn yr iaith o'u dewis.



- Rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol wybod a chofnodi dewisiadau ac anghenion iaith pobl.



- Mae'n rhaid i'r  staff ddeall cefndiroedd a chredoau pobl o **leiafrifoedd ethnig**. Rhaid iddyn nhw hefyd fod yn barchus tuag atyn nhw.




- Fe ddylai awdurdodau lleol gael gwybodaeth ysgrifenedig am beth mae angen i staff ei wneud i gefnogi pobl o **leiafrifoedd ethnig**. Mae'r rhain yn cael eu galw yn **bolisïau** a **safonau**.



- Fe ddylid defnyddio **cyfieithwyr ar y pryd** proffesiynol a gwasanaethau **cyfieithu** i gefnogi pobl. Fel arfer, ni ddylid defnyddio teuluoedd a ffrindiau.

# Geiriau Anodd

## Ethnigrwydd

Mae hyn yn meddwl cefndir neu ddiwylliant unigolyn.

## Lleiafrifoedd ethnig

Mae hyn yn meddwl pobl sy'n byw yng Nghymru ond sy'n dod o gefndiroedd, gwledydd neu ddiwylliannau eraill na'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru. Efallai eu bod nhw yn siarad ieithoedd eraill heblaw Saesneg neu Gymraeg.